**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Gorffennaf 29ain 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Ian W Griffith, Emlyn Williams

Presennol: Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Elen H Edwards, Gwydion Jones, Ifor G Edwards, Cyng Dilwyn O Roberts a'r Clerc.
Roedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol a chyfieithodd Diane Roberts y trafodion iddo.

42.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Ifor Edwards a Gwydion Jones gysylltiad ag eitem 6c), 6d) ceisiadau cynllunio 0/41875, 0/41878 a mynegodd Gwydion Jones gysylltiad ag eitem 6e) hefyd – cais cynllunio 0/41886

42.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod Mehefin 24ain a PHENDERFYNWYD i newid cofnod 41.5.4 i beidio enwi neb sy'n pleidleisio yn unol â phenderfyniad y Cyngor (cofnod 38.9). Wedi newid hyn PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y cofnodion yn gywir.

42.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
42.3.1. TWRCH – adroddwyd bod y twrch yn dal i greu trafferth ger llwybr y fynwent.
42.3.2 MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – derbyniwyd neges ebost gan Prysor Williams yn dweud bod newid yn lleoliad y mast a bod angen mynd trwy'r adran cynllunio unwaith eto ond nid oedd y cwmni yn gweld y byddai hynny'n drafferth.
42.3.3 TOILEDAU LLANGERNYW – adroddodd Elen Edwards iddi fynychu'r panel tendro a deallir eu bod am ystyried paneli solar. Roedd dau dendr wedi dod i law a bydd Cyngor Conwy yn cyhoeddi'r enw llwyddiannus yn fuan. Diolchwyd i Elen Edwards am fynychu'r panel.
42.3.4 PEINTIO ARHOSFAN BWS – roedd y Clerc wedi anfon llythyr at B&Q ond heb dderbyn ateb. PENDERFYNWYD i roi hyn ar agenda'r cyfarfod nesaf.

42.4 CEISIADAU CYNLLUNIO
42.4.1 CAIS RHIF 0/41838 Adeiladu sied amaethyddol yn Tyn y Bryn, Llangernyw gan Mr Emlyn Davies – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
42.4.2 CAIS RHIF 0/41846 Dymchwel byngalo pren sydd wedi derbyn Tystysgrif Datblygiad Cyfreithiol a chodi annedd yn ei le yn Quarry Bungalow, Llangernyw gan Mrs Antoinette Sandbach – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
42.4.3 CAIS RHIF 0/41875 Ffurfio bwnd wedi'i wneud o'r ddaear nesaf at yr ardal dal gwartheg (ôl-weithredol) ar dir ger Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH gan Mr Robin Crossley. Gadawodd Ifor Edwards a Gwydion Jones y cyfarfod. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais ond roedd Diane M Roberts yn gwrthwynebu.
42.4.4 CAIS RHIF 0/41878 Adeiladu arwyneb caled amaethyddol mewn cysylltiad â gorsaf odro gyfagos (ôl-weithredol) ar dir ger Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH gan Mr Robin Crossley. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais ond roedd Diane M Roberts yn gwrthwynebu.
PENDERFYNWYD i anfon sylwadau am y ddau gais ôl-weithredol i'r Adran Cynllunio gan ddatgan ein bod yn anfodlon ar y drefn a bod ceisiadau ôl-weithredol yn dod i'n sylw yn gynyddol a bod hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa anodd. Teimlwn y dylid newid y drefn yn genedlaethol a phenderfynwyd i wadd aelod o'r Adran Cynllunio atom i esbonio sut y dylem ymateb, ac i ofyn

beth yn union yw'r drefn a faint o bŵer sydd gennym ni fel Cyngor Cymuned. Hefyd i dynnu sylw bod y ffurflen gais yn nodi nad oes llwybrau cyhoeddus yn agos at y datblygiad- ond mae llwybr cyhoeddus gerllaw yn cychwyn o'r ffordd rhwng Maes yr Haul a Chapel Garnedd.
Daeth Ifor Edwards yn ôl i'r cyfarfod ond arhosodd Gwydion Jones allan ar gyfer y cais nesaf.
42.4.5 CAIS RHIF 0/41886 Adeiladu un tyrbin gwynt 30.5m i'r both (48.01m i'r llafn) gyda bocs rheoli a'r holl waith cysylltiedig yn Bodrach, Carmel, Llanrwst gan H Owen Co.
PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais ond roedd Diane Roberts yn gwrthwynebu.
Daeth Gwydion Jones yn ôl i'r cyfarfod.
42.4.6 CAIS RHIF 0/41894 Adeiladu adeilad amaethyddol rhannol ôl-weithredol yn Hafod Lom, Llangernyw gan Mr Alwyn Evans. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais ond i roi yr un sylwadau ynglŷn â cheisiadau ôl-weithredol unwaith eto.

42.5 BWRSARI ER COF AM IAN MACKESON-SANDBACH – derbyniwyd ebost gan Ms Antoinette Sandbach yn nodi ei bod yn teimlo y byddai'n well i'r teulu ofalu am y Bwrsari ond bod y Cyngor Cymuned yn helpu i hysbysebu. Yna pan fyddai rhestr fer wedi ei llunio byddai aelod o'r Cyngor Cymuned yn dod ar y panel i gynorthwyo'r teulu gyda'r cyfweliad.
PENDERFYNWYD i gytuno â hyn.

42.6 COFNODI BUDDIANNAU AELODAU – cafwyd ymateb gan Un Llais Cymru a PHENDERFYNWYD ei anfon i'r aelodau ar ebost a'i roi ar Agenda y cyfarfod nesaf.

42.7 DATGAN BLYNYDDOLY CYNGOR 2014-15 – daeth llythyr gan yr Archwilwyr yn nodi bod y Datganiad Blynyddol yn gywir.

42.8 CWRS CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU – mynychodd Diane Roberts ac Ian Griffith y cwrs yn Llandudno ar 21ain Gorffennaf. Adroddwyd bod mwy o gyfrifoldeb yn dod i Gynghorau Cymuned a bod dyletswydd i fynd ar gyrsiau a darllen am newidiadau cynllunio ar y wê .
Diolchwyd iddynt am fynychu'r cwrs.

42.9 PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS – cafwyd adroddiad gan Diane Roberts o'r cyfarfod ym Mhentrefoelas. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ninbych ar 14eg Hydref. Diolchwyd i Diane Roberts am ei hadroddiad.

42.10 FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan y Cadeirydd Gwynfor Davies. Un eitem ar yr agenda oedd trafod codi costau parcio yn y sir. Diolch i'r Cadeirydd am fynychu.

42.11 GOHEBIAETH – pasiwyd i anfon y canlynol i aelodau ar e-bost: Bil Casglu a Rheoli Trethi; Diwygio Llywodraeth Leol (Cyng D O Roberts); Effeithlonrwydd Ynni (Llywodraeth Cymru); Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru

42.12 CYNLLUN MIND ABERCONWY – derbyniwyd cais gan swyddog y cynllun i gyfarfod â rhai cynghorwyr er mwyn dod i nabod yr ardal ac i gynnig cymorth i unigolion bregus.
PENDERFYNWYD yn unfrydol i wadd y swyddog i gyfarfod agored os oedd yn fodlon.

42.13 CYNLLUN DATBLYGU CYMUNEDAU GWLEDIG – roedd y cynllun sy'n rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn mynd i gael ei agor yn ystod y Sioe Frenhinol sef cynllun grantiau fydd yn cael ei weinyddu gan Llywodraeth Cymru. Bydd yn cynnig grantiau i fudiadau /grwpiau ar draws ystod eang o ymyriadau wedi eu cynllunio yn bennaf i leddfu effaith tlodi mewn cymunedau gwledig, gwella amodau a all arwain tuag at swyddi a thwf yn y dyfodol.

42.14 GWARIANT CHWARTER – cyflwynodd y Clerc ddadansoddiad o'r gwariant am y tri mis diwethaf.

42.15 DARREN MILLAR AC – yn dilyn derbyn llythyr ganddo PENDERFYNWYD ei wahodd i gyfarfod o'r Cyngor.

42.16 MATERION LLEOL
42.16.1 Gofynnwyd pam bod angen ailwynebu rhan o'r A548 ger Pentre Isa.
42.16.2 Tair lamp ddim yn gweithio rhwng Cymerau a'r Graig.
42.16.3 Holi'r Adran Cynllunio os oes angen caniatad i osod camera cylch cyfyng mewn Ardal Cadwraeth ac a yw'n ymyrryd â phreifatrwydd y cyhoedd.
42.16.4 Angen peintio llinellau gwyn yng nghyffordd Cefn Isa.
42.16.5 Angen torri gwrych ar gyffordd Ainon er mwyn gweld i gyfeiriad Llangernyw wrth droi.
42.16.6 Angen torri o gwmpas drych Pentre Smithy.
42.16.7 Gobeithir y bydd y cyfarfod nesaf ddechrau mis Medi.

42.17 BILIAU

| | |
|---|---|
| UHY Hacker Young (Archwilwyr) | £246 |
| Cyflog a Chostau Clerc | £851.49 |
| Cyllid y Wlad- TWE | £6 |
| D Evans – Pedwerydd Toriad Mynwentydd | £380 |
| CBSC – Scipiau Cymunedol | £420 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion …D G Davies…………………… Dyddiad …30/9/15…..*

Community Council Meeting was held on Wednesday, July 29th 2015 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Ian W Griffith, Emlyn Williams

Present: Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Elen H. Edwards, Gwydion Jones, Ifor G Edwards, Cllr Dilwyn O Roberts and Clerk. Member of the public attended and the proceedings were translated to him by Diane Roberts.

42.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Ifor Edwards and Gwydion Jones expressed connection with item 6c), 6d) planning applications 0/41875, 0/41878 and Gwydion Jones expressed contact with item 6e) as well - planning application 0/41886

42.2 minutes - 24th June meeting minutes were looked at and RESOLVED to amend a record 41.5.4 not to record names of anyone who vote in accordance with the Council decision (record 38.9). After amending this it was unanimously RESOLVED that the records were correct.

42.3 ISSUES ARISING
42.3.1. MOLE - reported that the mole is still causing havoc near the path in the cemetery.
42.3.2 PEN Y FRON MAST, GWYTHERIN - mail message received from Prysor Williams says that there was a change in position of the mast and the need to go through the planning department again but the company did not see that this would be difficult.
42.3.3 LLANGERNYW TOILETS - Elen Edwards reported she had attended the tender panel and it is understood that the panel will consider ‘solar panels’ on the roof. Two tenders had been received and Conwy Council will publish the name of the successful contractor soon. Elen Edwards was thanked for attending the panel.
42.3.4PAINTING THE BUS STOP - the Clerk had sent a letter to B & Q but received no reply. RESOLVED to put this on the agenda for the next meeting.

42.4 PLANNING APPLICATIONS
42.4.1 APPLICATION NUMBER 0/41838 Construction of agricultural shed at Tyn y Bryn, Llangernyw by Mr Emlyn Davies - RESOLVED unanimously to support the application.
42.4.2 APPLICATION NUMBER 0/41846 Demolition of wooden bungalow that has received Lawful Development Certificate and erect replacement dwelling at Quarry Bungalow, Llangernyw by Mrs Antoinette Sandbach - RESOLVED unanimously to support the application.
42.4.3 APPLICATION NUMBER 0/41875 Formation of earth bund abutting cattle holding area (retrospective) at land adjacent to Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH by Mr Robin Crossley. Ifor Edwards and Gwydion Jones left the meeting. RESOLVED to support the application but Diane M Roberts opposed.
42.4.4 APPLICATION NUMBER 0/41878 Construction of agricultual hardstanding in connection with adjacent milking station (retrospective) at land adjacent to Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH by Mr Robin Crossley. RESOLVED to support the application but Diane M Roberts opposed.
RESOLVED to send comments on both retrospective applications to Planning Department stating that we are unhappy with the regime and that retrospective applications are increasingly coming to our attention and this puts us in a difficult position. We feel that the procedure should be changed nationally and resolved to invite a member of the Planning Department to explain to us how we should respond, and to ask what exactly is the procedure and how much power we have as a Community Council. Also to highlight that the application states that there were no public footpaths near the development- but a public footpath starts from the road between Maes yr Haul and Garnedd Chapel.
Ifor Edwards came back to the meeting but Gwydion Jones remained out for the next application.
42.4.5 APPLICATION NUMBER 0/41886 Erection of one 30.5m to hub (48.01m to tip) wind turbine with control box and all associated works at Bodrach, Carmel, Llanrwst by H. Owen Co. RESOLVED to support the application but Diane Roberts opposed.
Gwydion Jones came back to the meeting.
42.4.6 APPLICATION NUMBER 0/41894 Construction of agricultural building partially retrospective at Hafod Lom, Llangernyw by Mr Alwyn Evans. RESOLVED unanimously to support the application but to send the same comments regarding retrospective applications again.

42.5 BURSARY IN MEMORY OF IAN MACKESON-SANDBACH - received an email from Ms. Antoinette Sandbach stating that she felt it would be better for the family to take care of the bursary, but that the Community Council would help with advertising. Then when the shortlist had been drawn up a member of the Community Council would sit on the panel to assist the family with the interview. RESOLVED to agree with this.

42.6 RECORDING MEMBERS INTERESTS – received response from One Voice Wales and RESOLVED to send to members by email and put on agenda of the next meeting.

42.7 COUNCIL ANNUAL STATEMENT 2014-15 - letter received from the auditors stating that the Annual Statement was correct.

42.8 PLANNING AID WALES COURSE- Diane Roberts and Ian Griffith attended the course in Llandudno on 21 July and reported that more responsibility will come to Community Councils and there was a duty to attend courses and read about the planning changes on the internet. They were thanked for attending the course.

42.9 REGIONAL COMMITTEE ONE VOICE - a report by Diane Roberts from the meeting in Pentrefoelas. The next meeting is in Denbigh on 14th October. Diane Roberts was thanked for her report.

42.10 CONWY COMMUNITY AND TOWN COUNCILS FORUM - there was a report of the meeting by the Chairman Gwynfor Davies. One item on the agenda was to discuss raising parking charges in the county. Thanks to the Chairman for attending.

42.11 CORRESPONDENCE - was passed to send to members via e-mail: Bill Collecting and Managing Taxes; Local Government Reform (Cllr D O Roberts); Energy efficiency (WG); North Wales Health Board

42.12 ABERCONWY MIND - a request was received by an officer of the scheme to meet with some members to get to know the area and to provide support to vulnerable individuals. RESOLVED unanimously to invite the officer to an open meeting if he was willing.

42.13 DEVELOPMENT PLAN FOR RURAL COMMUNITIES - the plan which is part of the Rural Development Programme 2014-2020 is going to be open during the Royal Welsh Show - the grant scheme will be administered by the Welsh Government. It will provide grants to organizations / groups across a wide range of interventions having been designed primarily to mitigate the impact of poverty in rural communities, improving the conditions that can lead to jobs and growth in the future.

42.14 COMMUNITY COUNCIL EXPENDITURE - The Clerk presented a breakdown of expenditure for the last three months.

42.15 DARREN MILLAR AND - after receiving a letter from him RESOLVED to invite him to a Council meeting.

42.16 LOCAL ISSUES
42.16.1 Asked why was there need to resurface part of the A548 near Pentre Isa.
42.16.2 Three lamps not working between Cymerau and Y Graig.
42.16.3 To ask Planning Authority if a permission was necessary to install a CCTV camera in a Conservation Area and was it intruding privacy of the public.
42.16.4 White lines need to be painted at the junction of Cefn Isa.
42.16.5 Need to cut hedges at the Ainon junction to see in Llangernyw direction when turning.
42.16.6 Need to cut hedge around Pentre Smithy mirror.
42.16.7 Hoped that the next meeting would be in early September.

42.17 BILLS
UHY Hacker Young (auditors) £ 246
Clerk Salary and Costs £ 851.49
Inland Revenue - PAYE £ 6
D Evans - Fourth Cut to Cemeteries £ 380
CCBC - Community Skips £ 420

The meeting came to a close at 9:35 pm.

Approved the Minutes ......*D G Davies*...................................... Date 30/9/15